



Llywodraeth Cymru
Crynodeb o Ymatebion

Mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf Adolygiad o'r Farchnad Agored

Terfynol

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mehefin 2017

. This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

Crynodeb

Cynhaliwyd ein Hadolygiad o'r Farchnad Agored (OMR) ar Fynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf (NGA) o 5^{ed} Ionawr 2017 i 3^{ydd} Chwefror 2017.

Diben yr OMR oedd canfod lle mae buddsoddiad y sector preifat yn rhwydweithiau band eang y genhedlaeth nesaf eisoes wedi digwydd, lle mae'n digwydd yn awr neu'n cael ei gynllunio yn y tair blynedd nesaf ar hyd a lled Cymru. Bydd y wybodaeth a gesglir yn y broses OMR a'r Ymgynghoriad Cyhoeddus dilynol yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i benderfynu ar beth, yn absenoldeb buddsoddiad gan y sector preifat i'r seilwaith band eang sy'n cyflenwi o leiaf 30Mbps, y dylai cam nesaf NGA ganolbwyntio, er mwyn cyflawni'r ychydig adeiladau gwyn sy'n weddill (adeiladau mewn ardaloedd lle nad oes NGA yn gweithredu awr, neu nad oes bwriad iddynt weithredu yn y tair blynedd nesaf.

Mae'r OMR hwn wedi galluogi cwmnïau telathrebu a darparwyr band eang i ddarparu gwybodaeth fanwl i Lywodraeth Cymru am eu technoleg rhwydwaith NGA, eu cwmpas NGA presennol (naill ai ar lefel adeiladau (UPRN)¹) neu lefel cod post) a'u cynlluniau i gyflwyno NGA ar hyd a lled Cymru yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad OMR yn rhoi amlinelliad o ganlyniadau cychwynnol y broses OMR drwy grynhoi'r deg ymateb a dderbyniwyd gan gyflenwyr telathrebu, gan ddarparu dadansoddiad ar allu pob cyflenwr i gyflenwi NGA i adeiladau ar hyd a lled Cymru, a dangos y darlun dilynol o ran adeiladau gwyn sy'n addas ar gyfer ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru. Bwriad yr adroddiad OMR yw cyflwyno canlyniadau cychwynnol yr OMR i Lywodraeth Cymru a Broadband Delivery UK (BDUK) ar gyfer eu cymeradwyaeth. Ar ôl ei gymeradwyo, defnyddir cynnwys perthnasol yr OMB i lunio dogfen yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a gyhoeddir ar Borth Ymgynghori Llywodraeth Cymru.

Bydd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus dilynol hwn yn galluogi i bob rhanddeiliad sydd â diddordeb, gan gynnwys y cyhoedd, busnesau a chyflenwyr telathrebu roi sylwadau ar yr ardaloedd NGA gwyn arfaethedig cyn ymrwmo i gwmpas pellach. Yna bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno ei chynnig terfynol ar gyfer ardaloedd NGA gwyn, gan ystyried canlyniad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus, i Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol BDUK i'w glirio a'i gymeradwyo.

Mae'r ddogfen crynodeb o ymatebion hon yn rhoi amlinelliad,

¹ Mae Rhif Cyfeirnod Unigryw Adeiladau (UPRN) yn ddynodwr alffaniwmerig unigryw ar gyfer pob cyfarfod gofodol ym Mhrydain Fawr sydd i'w canfod yng nghynnyrch Cyfeiriadau'r Arolwg Ordnans. Mae'r UPRN yn darparu dynodwr cynhwysfawr a chyson drwy gylch oes adeiladau o'r caniatâd cynllunio i'w ddimychwel.

ar lefel uchel, o'r ymatebion OMR a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a'r camau nesaf dilynol yn y broses.

Cefndir

Mae prosiect Cyflymu Cymru yn ceisio ehangu argaeledd seilwaith band eang NGA ar hyd a lled Cymru ac mae'n ceisio cyflenwi band eang cyflym iawn i 690,000 adeilad, gyda chyflymder lawrlwytho o 30Mbps, gyda mwy o adeiladau yn elwa o fwy na 24Mbps. Bwriedir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2017.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ei Hadolygiad cyntaf o'r Farchnad Agored (OMR) a'i Hymgyngoriad Cyhoeddus yn 2012. Yn dilyn ymlaen o'r OMR hwn a'r broses gaffael ddilynol, cafodd contract ei ddyfarnu ar 19eg Gorffennaf 2012 i British Telecommunications (BT) CCC i gyflenwi band eang cyflym iawn i adeiladau yn yr Ardal Ymyrraeth ddiffiniedig ar hyd a lled Cymru gyda chyllid cyhoeddus gyda chymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol o £205 miliwn.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ei OMR a'i Hymgyngoriad Cyhoeddus diweddar rhwng 3ydd Mehefin a 3ydd Gorffennaf 2014, fel rhagflaenydd i'r gwaith o ymgorffori cwmpas band eang cyflym iawn ymhellach drwy ddeddfu Cais Newid gyda British Telecommunications (BT) CCC i gwmpasu Ardal Ymyrraeth ddiffiniedig fwy gyda chyllid cyhoeddus gyda chymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol o £19.4 miliwn.

Mae Cyflymu Cymru yn cwmpasu Ardal Ymyrraeth gyflawn o tua 767,000 o adeiladau ar hyd a lled Cymru, yr aseswyd eu bod y tu hwnt i'r cwmpas ar gyfer buddsoddiad masnachol arferol NGA drwy'r broses adolygiad o'r farchnad agored. Mae'r £225 miliwn o gyllid a ddyrannwyd hyd yma yn ceisio cyflenwi o leiaf 90% o gwmpas band eang cyflym iawn i'r Ardal Ymyrraeth erbyn Rhagfyr 2017.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal proses gaffael bellach yn awr o ran yr adeiladau sy'n weddill ar hyd a lled Cymru sydd heb seilwaith band eang NGA ac er mwyn hwyluso'r broses gaffael hon cynhaliwyd OMR i gadarnhau'r ardaloedd hynny heb seilwaith band eang NGA.

Manylion yr Ymgynghoriad

Hyd:

Roedd yr OMR yn weithredol rhwng: 5^{ed} Ionawr 2017 a 3^{ydd} Chwefror 2017. Er mwyn sicrhau ymgysylltiad mor eang â phosibl gan y farchnad, cyflwynwyd Ceisiadau am Wybodaeth OMR i gyfanswm o 396 o gyflenwyr, gan gynnwys y cyflenwyr hynny y gwyddys bod ganddynt seilwaith band eang ar hyd a lled Cymru ac eraill a gwyddys bod ganddynt (neu y credwyd y gallai fod ganddynt) gynlluniau i gyflwyno rhwydweithiau newydd ar hyd a lled Cymru.

Derbyniwyd ceisiadau gan nifer o gyflenwyr telathrebu am estyniad i ddyddiad cau gwreiddiol yr OMR, ar 3^{ydd} Chwefror. Cytunodd Llywodraeth Cymru i estyniad i 10^{fed} Chwefror (fodd bynnag, dim ond i'r cyflenwyr hynny a oedd wedi gwneud cais am estyniad y cymeradwywyd yr estyniad hwn, ac ni chyhoeddwyd hysbysiad o'r estyniad drwy Borth Ymgynghori Llywodraeth Cymru).

Ar ôl derbyn y cyflwyniadau OMR, cafodd y wybodaeth ei hadolygu i sicrhau bod y wybodaeth hon yn gyflawn ac nad oedd unrhyw anghysondebau neu gamgymeriadau yn y data a ddarparwyd. Datgelodd yr adolygiad cychwynnol hwn bod bylchau sylweddol yn ymatebion nifer o'r cyflenwyr yn eu cyflwyniad OMR, a olygai na allai Llywodraeth Cymru asesu honiadau'r cyflenwr am eu cwmpas band eang ar hyd a lled Cymru. Felly, cyflwynwyd cyfanswm o 8 llythyr ffurfiol i gyflenwyr yn gofyn am wybodaeth ychwanegol OMR er mwyn sefydlu eu cwmpas NGA a'u cynlluniau cyflwyno, safonau a dyluniad eu rhwydwaith NGA a/neu i gywiro camgymeriadau yn eu data. Roedd angen i'r cyflenwyr ddychwelyd yr ymatebion i'r llythyrau hyn ar 2^{il} Mawrth 2017, fodd bynnag, cymeradwywyd nifer o estyniadau pellach i rai cyflenwyr.

Lleoliad y Wefan:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/mynediad-fand-eang-y-genhedlaeth-nesaf-adolygiad-or-farchnad-agored>

Ymatebion

Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o ddeg cyflwyniad OMR gan gyflenwyr telathrebu, a werthuswyd fel rhan o'r broses OMR a chafodd y canlyniadau a'r casgliadau eu crynhoi yn yr adroddiad OMR er mwyn cael cymeradwyaeth BDUK.

Mae manylion y cyflenwyr telathrebu hyn, a ymatebodd isod, wedi'u hamlinellu isod gyda disgrifiad lefel uchel o sut y cafodd eu gwybodaeth OMR ei thrin gan Lywodraeth Cymru.

Nodwch fod pob ymateb OMR sy'n cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i isgymalau cyfrinachedd busnes ac felly ni chânt eu cyhoeddi'n llawn.

Derbyniwyd: (10/02/17) 14:39 gan Neil Tucker

Proffil: AB Internet

Gohebiaeth Bellach: Anfonwyd e-bost ar 04/03/17 yn gofyn i gamgymeriadau gael eu cywiro gyda data UPRN yn cael ei ddarparu. Cyhoeddwyd e-bost dilynol ar 28/03/17 ar ddiweddariad i'r mater UPRN. Galwad ffôn a gadael neges gydag AB Internet ar 29/03/17 a chyhoeddi neges e-bost ddilynol derfynol ar 29/03/17 yn rhoi manylion ar sut i gywiro'r broblem gyda'r data UPRN.

Canlyniadau: Er bod nifer o negeseuon e-bost wedi'u hanfon ni ddarparodd AB Internet unrhyw ddiweddariadau o ran y data UPRN ac felly defnyddiwyd gwybodaeth lefel cod post ar gyfer gwaith dadansoddi a mapio OMR. Ar y cyfan fe ddarparodd AB Internet fanylion am eu rhwydwaith yn Sir Fynwy a datgan ei fod yn cydymffurfio â NGA ac yn darparu mynediad o gyflymderau o hyd at ~50Mbps i ddefnyddwyr a'u rhwydwaith yng ngogledd Cymru, a oedd ond yn darparu gwasanaeth band eang sylfaenol (gyda'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr ar 10Mbps). O ran y rhwydwaith yn Sir Fynwy, nid oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn arddangos cydymffurfiaeth NGA yn ddigonol i gefnogi'r 26,000 o adeiladau yr oedd AB Internet yn honni y gallai eu rhwydwaith eu cwmpasu.

Casgliad: Diystyriwyd cais Gogledd Cymru ac ni chafodd ei ymgorffori yn yr ymgynghoriad am nad oedd y rhwydwaith yn cefnogi cyflymderau o 30Mbps. I Sir Fynwy, cafodd yr ôl-troed Peilot Profi'r Farchnad yn OMR 2014, a oedd yn cynnwys tua 229 cod post, ei ymgorffori yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a chafodd y codau post hyn eu tynnu o'r Ardal Ymyrraeth (fel rhwydwaith a ariannwyd yn flaenorol gan Gymorth Gwladwriaethol). Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod AB Internet yn profi rhai problemau busnes ar hyn o bryd, sy'n creu lefel o ansicrwydd ynglŷn â chefnogi'r rhwydwaith peilot hwn yn y dyfodol. O ganlyniad, diffiniwyd yr adeiladau cysylltiedig fel adeiladau 'y tu allan i'r cwmpas – cadw golwg' nes y bydd gwybodaeth ychwanegol ar gael i Lywodraeth Cymru ar gefnogi'r rhwydwaith peilot yn Sir Fynwy yn y dyfodol – naill ai gan AB Internet neu'n dilyn trosglwyddiad i weithredwr rhwydwaith newydd. Os bydd y rhwydwaith yn Sir Fynwy yn rhoi'r gorau i weithredu, bydd yr adeiladau hyn yn cael eu mapio fel NGA gwyn ac yn ffurfio rhan o'r ardal ymyrraeth arfaethedig.

Mae'r codau post sy'n weddill yn Sir Fynwy (y tu allan i'r cynllun peilot profi), yr oedd AB Internet hefyd yn honni y gallent eu cwmpasu, wedi aros yn yr Ardal Ymyrraeth. Cytunwyd ar hyn gyda Broadband Delivery UK.

Anfonwyd canlyniad terfynol ein casgliad drwy e-bost at AB Internet ar 14^{eg} Mehefin 2017.

Derbyniwyd: (14/03/17) 15:54 gan Redmond Peel

Proffil: Airband

Gohebiaeth Bellach: Anfonwyd cais at Airband ar 16/03/17 yn gofyn iddynt am esboniad pellach ar gwmpas eu rhwydwaith (roedd gan y cyflwyniad OMR cychwynnol nifer fawr o UPRN yng Nghymru, a oedd yn dangos cwmpas ei ateb ar gyfer y rhwydwaith). Derbyniwyd ymateb gan Airband ar 17/03/17 yn datgan y byddai rhestr wedi'i diweddarau o UPRN adeiladau yn cael ei darparu. Anfonwyd negeseuon e-bost dilynol ar Airband ar 20/03/17 a 23/03/17 yn gofyn am y data hwn. Derbyniwyd data Profi a Dilysu gan Airband ar 05/04/2017.

Canlyniadau: Defnyddiwyd data Profi a Dilysu gan Airband i gadarnhau ei honiadau ar gwmpas – yn dilyn dyfarnu'r [contract Mewnlenwi](#) sy'n darparu gwasanaethau NGA i fusnesau ar hyd a lled gogledd a de Cymru.

Casgliad: Mae codau post yn ardal gwmpas rhwydwaith Airband, a oedd wedi pasio proses Profi a Dilysu Llywodraeth Cymru, wedi'u hymgorffori yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a chafodd y codau post hyn eu tynnu o'r Ardal Ymyrraeth (fel rhwydwaith a ariannwyd yn flaenorol gan Gymorth Gwladwriaethol). Cytunwyd ar hyn gyda Broadband Delivery UK.

Anfonwyd canlyniad terfynol ein casgliad drwy e-bost at Airband ar y 14^{eg} o Fehefin 2017.

Derbyniwyd: (09/02/17) 10:25 gan Neil Denyer

Proffil: Bentley Walker

Gohebiaeth Bellach: Anfonwyd llythyr e-bost swyddogol OMR ar 23/02/17 yn gofyn am fanylion ychwanegol a oedd wedi'u hepgor o'r ymateb OMR gwreiddiol. Darparwyd y wybodaeth ychwanegol gan Bentley Walker ar 10/03/17.

Canlyniadau: O dan ganllawiau diweddar yr Undeb Ewropeaidd ar ddarparu rhwydweithiau band eang yn gyflym, mae'n bosibl dosbarthu atebion diwifr fel rhai sy'n cydymffurfio â NGA o dan Gymorth Gwladwriaethol. Fodd bynnag, bydd ond yn bosibl dosbarthu lloeren fel ateb technoleg gyflenwol h.y. gallu darparu cyflymderau band eang sylfaenol yn unig. Mae technolegau NGA cymwys presennol yn rhwydweithiau ffibr (FTTx), rhwydweithiau cebl uwch wedi'u huwchraddio (DOCSIS 3.0) a rhai rhwydweithiau mynediad diwifr uwch sy'n gallu cyflenwi cyflymderau uchel dibynadwy - ac nid ydynt yn cynnwys gwasanaethau lloeren.

Casgliad: Diystyriwyd y cyflwyniad ac ni chafodd ei ymgorffori yn yr ymgynghoriad. Cytunwyd ar hyn gyda Broadband Delivery UK.

Anfonwyd canlyniad terfynol ein casgliad drwy neges e-bost

at Bentley Walker ar y 14^{eg} Mehefin 2017.

Derbyniwyd: (10/02/17) 14:48 gan James Hughes

Proffil: BT Openreach

Gohebiaeth Bellach: Anfonwyd e-bost at BT Openreach ar 16/02/17 yn gofyn am wybodaeth am ffynhonnell ddata haen sylfaen. Derbyniwyd ymateb gan BT Openreach ar 16/02/17. Anfonwyd llythyr OMR swyddogol drwy e-bost ar 23/02/17 yn gofyn am fanylion ychwanegol a oedd wedi'u hepgor o'r ymateb OMR gwreiddiol. Darparwyd gwybodaeth ychwanegol gan BT Openreach ar 03/03/17. Darparodd BT Openreach gynllun adeiladu Cyflymu Cymru wedi'i ddiweddarau ar 30/03/17. Anfonwyd e-bost at BT Openreach ar 03/04/17 yn gofyn am eglurhad o'u diffiniadau colofn yn y cynllun adeiladu. Derbyniwyd ymateb gan BT Openreach ar 04/04/17 ar ddiffiniadau colofn. Anfonwyd e-bost ychwanegol at BT Openreach ar 04/04/17 yn dilyn adolygiad o ddata adeiladu Cyflymu Cymru ac anghysondebau rhwng rhai o'r adeiladau a restrwyd fel rhai nad oeddent yn cael eu gwasanaethau pan oedd gwasanaethau NGA ar gael. Gwnaed galwad ffôn i BT Openreach ar 06/04/17 i drafod materion yn ymwneud â data adeiladu Cyflymu Cymru lle gellid diystyru'r faner adeiladau heb eu gwasanaethu ac yna anfonwyd e-bost dilynol atynt ar 06/04/17 yn cadarnhau sut roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r data yn y dadansoddiad OMR. Cynhaliwyd cyfarfod arall gyda BT Openreach ar 26^{ain} Ebrill i wella ein set ddata OMR. Parhaodd y trafodaethau gyda BT Openreach yn ystod Mai gyda'u set ddata OMR derfynol yn cael ei chyhoeddi ar 4^{ydd} o Fai.

Canlyniadau: Er nad oedd y cais yn cynnwys yr holl dystiolaeth ategol y gofynnwyd amdani, ystyrir bod BT Openreach yn ddarparwr telathrebu cymeradwy o OMR blaenorol a gwyddom fod eu seilwaith ffibr i'r cabinet (FTTC) a ffibr i'r adeiladau (FTTP) yn gallu cyflenwi gwasanaethau a chynnyrch NGA ar hyd a lled y wlad.

Casgliad: Cafodd y rhestr o adeiladau (lle nad oedd yn bosibl cyfateb ag UPRN codau post BT Openreach) lle'r oedd gwasanaethau NGA ar gael (neu y byddent ar gael o fewn y tair blynedd nesaf) ei hymgorffori yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a chafodd yr adeiladau hyn eu tynnu o'r Ardal Ymyrraeth. Cytunwyd ar hyn gyda Broadband Delivery UK.

Anfonwyd canlyniad terfynol ein casgliad drwy e-bost at BT Openreach ar y 14^{eg} o Fehefin 2017.

Derbyniwyd: (22/02/17) 18:48 gan Anthony Micallef

Proffil: Fibrespeed

Gohebiaeth bellach: Anfonwyd e-bost ar 07/03/17 yn gofyn am ddata ar lefel UPRN neu god post o ran cwmpas Fibrespeed. Gwnaed galwad ffôn dilynol i Fibrespeed ar

07/07/17 i egluro'r gofynion ac yn dilyn hyn darparwyd gwybodaeth gan Fibrespeed ar 07/07/17.

Canlyniadau: Cadarnhaodd Fibrespeed ei fod ond yn darparu gwasanaethau cyfanwerthu ac na ellir defnyddio eu gwasanaethau i gyflenwi gwasanaethau NGA yn uniongyrchol i gwsmeriaid preswyl (er y nodwyd y gall cyflenwyr telathrebu ddefnyddio eu rhwydwaith cebl yng ngogledd Cymru i ddarparu gwasanaethau NGA i ddefnyddwyr).

Casgliad: Diystyriwyd y cais ac ni chafodd ei ymgorffori yn yr ymgynghoriad. Cytunwyd ar hyn gyda Broadband Delivery UK.

Anfonwyd canlyniad terfynol ein casgliad drwy e-bost at Fibrespeed ar y 14^{eg} o Fehefin 2017

Derbyniwyd: (12/01/17) 18:23 gan Joe Frost

Proffil: Gigaclear

Gohebiaeth Bellach: Anfonwyd llythyr swyddogol OMR ar 23/02/17 yn gofyn am wybodaeth ychwanegol a oedd wedi'i hepgor o'r ymateb OMR gwreiddiol. Anfonwyd e-bost hefyd ar 03/03/17 ar fanylion pellach yr adeiladau sy'n cael eu cwmpasu gan rwydwaith Gigaclear. Derbyniwyd ymateb gan Gigaclear ar 06/03/17.

Canlyniadau: Er bod rhwydwaith Gigaclear yn defnyddio technoleg sy'n cydymffurfio â NGA dim ond i ôl-troed cwmpas bychan iawn yng Nghymru y mae'n darparu technoleg NGA ar hyn o bryd. Hefyd, nid oedd gan Gigaclear unrhyw gynlluniau i ehangu'r rhwydwaith hwn ar draws Cymru yn y dyfodol. Yn ogystal, ni allai Llywodraeth Cymru nodi pob adeilad yr oedd Gigaclear yn honni y gallent eu cwmpasu.

Casgliad: Darparodd Gigaclear dystiolaeth ddigonol o ddarparu gwasanaethau band eang NGA i'r adeiladau a nodwyd o fewn ei gwmpas a bod eu rhwydwaith yn cyflawni canllawiau technoleg NGA. Felly, cafodd yr adeiladau y gallai Llywodraeth Cymru eu nodi eu hymgorffori yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a chafodd yr adeiladau hyn eu tynnu o'r Ardal Ymyrraeth. Nid yw'r adeiladau ychwanegol o fewn ôl-troed Gigaclear wedi'u hymgorffori yn yr ymgynghoriad.

Anfonwyd canlyniad terfynol ein casgliad drwy e-bost at Gigaclear ar y 14^{eg} Mehefin 2017.

Derbyniwyd: (31/01/17) 09:54 gan Lisa Harding

Proffil: ITS Technology

Gohebiaeth Bellach: Anfonwyd llythyr swyddogol OMR ar 23/02/17 yn gofyn am fanylion ychwanegol a oedd wedi'u hepgor o'r ymateb OMR gwreiddiol. Darparwyd gwybodaeth ychwanegol ar 07/03/17. Anfonwyd e-bost at ITS Technology ar 27/03/17 yn gofyn i gamgymeriadau gael eu cywiro yn y

data UPRN a ddarparwyd. Yn dilyn hyn gwnaed galwad ffôn i ITS Technology ar 28/03/17 a darparodd ITS Technology y data UPRN diwygiedig ar 30/03/17.

Canlyniadau: Darparodd ITS Technology dystiolaeth yn ei gais OMR bod y prosiect i uwchraddio eu rhwydwaith yn mynd rhagddo'n dda yng Nghymru, ac ar ôl ei gwblhau byddai'n gallu darparu cyflymderau mynediad band eang o >30Mbps i'r ardaloedd mae'n eu gwasanaethu yng Nghymru, a bydd yn cyflawni canllawiau technoleg NGA BDUK. Fodd bynnag, o ystyried bod y gwaith o uwchraddio'r rhwydwaith yn parhau i fynd rhagddo, a bod rhywfaint o risg na fyddai'r cynlluniau hyn yn cael eu gwireddu, mae'r adeiladau a nodwyd gan ITS Technology fel adeiladau sy'n cael eu gwasanaethu ganddynt wedi'u hamlygu yn yr ymgynghoriad fel rhai 'cadw golwg'.

Casgliad: Cafodd rhestr o'r adeiladau ei hymgorffori yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus fel adeiladau 'cadw golwg', sy'n golygu y bydd yr adeiladau hyn yn destun gwaith monitro parhaus gan Lywodraeth Cymru fel rhan o gynlluniau uwchraddio ITS Technology. Os na fydd cynlluniau masnachol ITS Technology yn cael eu gwireddu, bydd yr adeiladau hyn yn cael eu mapio fel adeiladau NGA gwyn ac yn ffurfio rhan o'r ardal ymyrraeth arfaethedig. Cytunwyd ar hyn gyda Broadband Delivery UK.

Anfonwyd canlyniad terfynol ein casgliad drwy e-bost at ITS Technology ar y 14^{eg} Mehefin 2017.

Derbyniwyd: (02/02/17) 15:49 gan Trevor Mosedale

Proffil: Rural Technologies

Gohebiaeth Bellach: Anfonwyd llythyr swyddogol OMR ar 23/02/17 yn gofyn am fanylion ychwanegol a oedd wedi'u hepgor o'r ymateb OMR gwreiddiol. Darparwyd ymateb gan Rural Technologies ar 09/03/17. Anfonwyd e-bost dilynol ar 13/03/17 yn gofyn am wybodaeth a oedd wedi'i hepgor o'r ymateb OMR.

Canlyniadau: Darparodd Rural Technologies wybodaeth gyfyngedig i gefnogi ei gais OMR, gan gynnwys gwybodaeth am y cyflymderau band eang a gefnogwyd gan eu rhwydwaith a manylion eu safonau technoleg NGA a dyluniad eu rhwydwaith.

Casgliad: Diystyriwyd y cais ac ni chafodd ei ymgorffori yn yr ymgynghoriad. Cytunwyd ar hyn gyda Broadband Delivery UK.

Anfonwyd canlyniad terfynol ein casgliad drwy e-bost at Rural Technologies ar y 14^{eg} o Fehefin 2017.

Derbyniwyd: (03/02/17) 11:50 gan Karen Morgan

Proffil: TFL

Gohebiaeth bellach: Anfonwyd llythyr swyddogol OMR ar 23/02/17 yn gofyn am fanylion ychwanegol a oedd wedi'u hepgor o'r ymateb OMR gwreiddiol. Darparwyd ymateb gan TFL ar 07/03/17.

Canlyniadau: Darparodd TFL wybodaeth gyfyngedig ar allu technegol a dyluniad eu rhwydwaith yn nhermau eu gallu i ddarparu gwasanaeth NGA i adeiladau , fel yr oeddent yn honni y gallent. Hefyd, nid oedd map cwmpas lefel uchel TFL a ddarparwyd a'r ardaloedd cod post a honnwyd gan TFL yn ei ymateb yn cyfateb.

Casgliad: Diystyriwyd y cais ac ni chafodd ei ymgorffori yn yr ymgynghoriad. Cytunwyd ar hyn gyda Broadband Delivery UK.

Anfonwyd canlyniad terfynol ein casgliad drwy e-bost at TFL ar y 14^{eg} o Fehefin 2017.

Derbyniwyd: (10/02/17) 07:48 gan Rory Sherwood-Parkin

Proffil: Virgin Media

Gohebiaeth Bellach: Anfonwyd llythyr swyddogol OMR ar 23/02/17 yn gofyn am fanylion ychwanegol a oedd wedi'u hepgor o'r ymateb OMR gwreiddiol. Darparwyd ymateb gan Virgin Media ar 28/02/17.

Canlyniadau: Mae Virgin Media wedi darparu tystiolaeth ddigonol o ddarparu gwasanaethau NGA ar hyd a lled Cymru ac mae'n cael ei ystyried yn ddarparwr telathrebu cymeradwy o OMR blaenorol.

Casgliad: Cafodd y rhestr o godau post lle'r oedd gwasanaethau NGA ar gael (neu y byddent ar gael o fewn y tair blynedd nesaf) eu hymgorffori yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a chafodd y codau post hyn eu tynnu o'r Ardal Ymyrraeth. Cytunwyd ar hyn gyda Broadband Delivery UK.

Anfonwyd canlyniad terfynol ein casgliad drwy e-bost at Virgin Media ar y 14^{eg} o Fehefin 2017.

Gohebiaeth Ychwanegol

Derbyniodd yr OMR yr ohebiaeth ychwanegol ganlynol gyda'r cyflenwyr telathrebu canlynol

Derbyniwyd: (06/01/17) 11:02 gan Adam Fullalove

Proffil: Compucare/Pulse8broadband

Gohebiaeth: E-bost yn esbonio eu bod yn ail-werthwr band eang ac felly nid oeddent yn berchen ar unrhyw seilwaith yng Nghymru.

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Derbyniwyd: (07/02/167) 15:41 gan Rickard Granberg

Proffil: Talk Talk CCC

Gohebiaeth: E-bost yn datgan nad oedd ganddynt y gallu

adnoddau i gwblhau'r cais OMR.

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Derbyniwyd: (08/02/17) 16:03 gan Justin Kempley

Proffil: Three (Hutchison 3G UK Ltd)

Gohebiaeth: E-bost yn datgan bod yr OMR wedi'i gyfeirio ar gyfer mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf yn y farchnad sefydlog. Oherwydd mai dim ond darparwr ffonau symudol yw Three, ac nad yw'n cynnig gwasanaethau sefydlog ar hyd a lled Cymru, ni allent ddarparu data perthnasol mewn ymateb i'r OMR.

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Derbyniwyd: (06/01/17) 14:51 gan Nick Roughley

Proffil: The Utility Warehouse

Gohebiaeth: Derbyniwyd e-bost yn esbonio eu bod yn darparu gwasanaethau band eang drwy gytundebau cyfanwerthu gyda gweithredwyr rhwydwaith ac felly nid ydynt yn gweithredu nac yn berchen ar seilwaith rhwydwaith ar hyd a lled Cymru.

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Derbyniwyd: (22/01/17) 16:11 gan Robert Racine

Proffil: Wipro

Gohebiaeth: Ymateb e-bost cyffredinol ar eu cynlluniau recriwtio, ehangu a buddsoddi yn y DU yn y ddwy flynedd nesaf.

Canlyniad: Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Y Camau Nesaf

Drwy ddefnyddio Address Base Premium (Epoch 45) ar gyfer Cymru fel set ddata sylfaenol, defnyddiwyd y data OMR a gyflwynwyd gan y cyflenwyr telathrebu i gynhyrchu'r rhestr o adeiladau NGA gwyn a mapiau gan ddefnyddio meini prawf NGA gwyn, llwyd a du. O fewn y gwaith dadansoddi a mapio OMR, cafodd y data lefel adeiladau a/neu god post eu tynnu o'r Ardal Ymyrraeth (ardaloedd NGA gwyn) oherwydd bod yr ardaloedd hyn eisoes yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau NGA (neu y byddent yn cael eu gwasanaethu o fewn y tair blynedd nesaf). Roedd y rhain yn cynnwys:

- Codau post ymateb OMR Virgin Media (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cynllunio o fewn y tair blynedd nesaf)
- Adeiladau a chodau post ymateb OMR BT Openreach (gan gynnwys Cyflymu Cymru a'u defnydd masnachol)
- Adeiladau ymateb OMR ITS Technology (Gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cynllunio o fewn y tair blynedd nesaf)
- Adeiladau ymateb OMR Gigaclear
- Codau post 30MBps Airband a brofwyd ac a ddilyswyd
- Ardaloedd Eithrio Canol Dinas yr Adolygiad o'r Farchnad Agored 2014 (adeiladau penodol yng

Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd sydd eisoes yn derbyn cyllid BDUK o dan drefniadau eraill) yn ogystal â rhwydwaith Peilot Prawf y Farchnad AB Internet yn Sir Fynwy sydd hefyd yn derbyn cyllid Cymorth Gwladwriaethol ar wahân drwy BDUK

- Adeiladau yn cynnwys busnesau sydd wedi derbyn cyllid naill ai drwy Access Broadband Cymru (ABC) neu drwy'r Cynllun Taleb Gwibgyswllt.

Felly, mae'r Ardal Ymyrraeth yn cynnwys 15,763 cod post gwyn, sy'n gyfwerth â 98,145 adeiladau gwyn. Felly, diffinnir y rhestr fel rhestr 'Adeiladau NGA Gwyn Ardal Ymyrraeth 2017'.

Bydd y mapio rhyngweithiol NGA a'r rhestr o Adeiladau Gwyn NGA yn cael eu rhyddhau ar y 13^{eg} o Fehefin drwy'r Ymgynghoriad Cyhoeddus. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar gael ar Borth Ymgynghori Llywodraeth Cymru. Bydd yr ymgynghoriad ar agor hyd at 17:00 ar y 13^{eg} o Orffennaf, 2017.

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/mynediad-i-fand-eang-y-genhedlaeth-nesaf-yng-nghymru>

Diben yr Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn yw cadarnhau bod yr Ardal Ymyrraeth a gynhyrchwyd yn dilyn y broses OMR yn gywir.

Bydd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus yn galluogi i bob rhanddeiliad sydd â diddordeb – y cyhoedd, busnesau a darparwyr telathrebu, gael yr opsiwn i roi sylwadau ar yr Ardal Ymyrraeth arfaethedig (adeiladau a chodau post) cyn trefnu cwmpas pellach a chyn i Lywodraeth Cymru wneud ymrwymiad i drefniadau caffael dilynol.

Ar ôl cwblhau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus, bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno ei chynnig terfynol ar gyfer yr Ardal Ymyrraeth, gan roi ystyriaeth i ganlyniad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus, i Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol BDUK i'w chlirio a'i chymeradwyo.